Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2012**

Amser:
**09:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Policy: Tom Jackson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8597
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

1. **Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9:00 - 9:05)**

2. **Papurau i'w nodi** (Tudalennau 1 - 42)

3. **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**
Eitemau 4 a 5.

4. **Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) - themâu allweddol a materion sy'n dod i'r amlwg (9:05 - 10:00)** (Tudalennau 43 - 65)

5. **Ystyried yr adroddiad drafft ar yr amcangyfrif atodol o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2014 (10:00 - 11:00)** (Tudalennau 66 - 90)

Sarah Sargent
Deputy Clerk
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff bay
CF99 1NA

By Email: PublicAccounts.Committee@Wales.gov.uk

24 October 2012

Dear Sarah,

**Public Audit (Wales) Bill**

Firstly, please accept my sincere apologises for not being able to attend the hearing on 6 November due to a clash with another select committee hearing. However, on behalf of ACCA (The Association of Chartered Certified Accountants) I welcome the opportunity to submit a response on the Public Audit (Wales) Bill.

ACCA is the global body for professional accountants. We aim to offer business-relevant, first-choice qualifications to people of application, ability and ambition around the world who seek a rewarding career in accountancy, finance and management. We support our 147,000 members and 424,000 students throughout their careers, providing services through a network of 83 offices and centres. A significant proportion of our members also work within the public sector.

In our response to the public (Wales) draft Bill consultation in May 2012 we set out that we were generally supportive of the changes set out in the draft Bill as they would bring about stronger governance and will help strengthen Assembly oversight. We agreed with the rationale for oversight by the PAC of the Auditor General for Wales (AGW), but believed that the proposals set out could potentially over burden the PAC with detailed business planning arrangements at the expense of concentrating on the scrutiny of Welsh public expenditure. We are pleased to note that the Bill now provides for oversight to be undertaken by the National Assembly rather than being prescribed by the PAC.

We also endorse the Institute of Chartered Accountants of England and Wales (ICAEW) concern that the legislation doesn't quite go far enough to protect auditor independence. Clauses 25 and 26 seem to suggest that the Board can directly intervene on the AGW work programme. In our view the Board's role

29 LINCOLN'S INN FIELDS
LONDON WC2A 3EE
UNITED KINGDOM
T +44 (0)20 7059 5000
F +44 (0)20 7059 5050
www.accaglobal.com

ACCA

should be one of oversight and not one of management – the auditor general should be free to determine the scope of work and how it should be performed.

In comparison, England has a separate Public Accounts Commission to deal with NAO business planning, resourcing and oversight which means that the Westminster PAC is better placed to concentrate on holding Government to account. This arrangement also ensures that business planning arrangements do not impinge on the Auditor General's statutory functions and preserves auditor independence

I hope you find the above observations useful. If you would like to discuss any of the above further please contact Gillian Fawcett (Head of Public Sector) on 02070595674 or e-mail: gillian.fawcett@accaglobal.com

**Gillian Fawcett**
Head of Public Sector



29 LINCOLN'S INN FIELDS
LONDON WC2A 3EE
UNITED KINGDOM

T +44 (0)20 7059 5000
F +44 (0)20 7059 5050

www.accaglobal.com

**PAC(4) 24-12 – Papur 2**

## Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

## Hydref 2012

**Argymhelliad 1: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datgan yn gyhoeddus – gan ddefnyddio'r fframwaith rheoleiddio ac yn sgîl ymgynghori â CLILC a chyrff perthnasol eraill – sut y bydd:**

- **Yn canfod ac yn hyrwyddo arferion da o ran ymgysylltu â thenantiaid;**
- **Yn herio landlordiaid nad ydynt yn gwneud yn dda yn y cyswllt hwnnw**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru ar fin comisiynu gwerthusiad o SATC a fydd yn cyflwyno adroddiad yn 2013. Bydd nodi enghreifftiau penodol o arfer da o ran ymgysylltu â thenantiaid yn rhan ohono. Bydd hyn yn cyfrannu at waith sydd eisoes yn cael ei wneud gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru i ddatblygu a hyrwyddo arfer da ymhlith landlordiaid cymdeithasol o ran ymgysylltu â thenantiaid. Disgwylir i *Canolbwyntio ar Gyflawni* gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2013. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad a'r prosiect ar y cyd yn sail ar gyfer ymgynghori â landlordiaid, CLILC, Cartrefi Cymunedol Cymru a chyrff perthnasol eraill gyda'r nod o weithredu canllawiau sy'n hyrwyddo arfer da erbyn mis Mawrth 2014.

Asesir perfformiad Landlord Cymdeithasol Cofrestredig o ran ymgysylltu â thenantiaid gan gynnwys ar wasanaeth SATC yn erbyn canlyniadau allweddol yn Fframwaith Rheoleiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithasau Tai Cofrestredig yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol sy'n cadw eu stoc tai wedi cytuno ar sail ffurfiol ond gwirfoddol i gyflwyno adroddiad yn erbyn canlyniadau cyflawni i denantiaid sy'n debyg i'r ffordd y mae cymdeithasau tai yn cyflwyno adroddiadau. Mae'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo ac, os nad yw landlordiaid yn perfformio'n dda, cymerir camau ymyrryd rheoleiddiol.

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl cyflwyno dull gwirio allanol, annibynnol ar adroddiadau landlordiaid lle maent yn dweud a ydynt yn cydymffurfio â SATC.**

**Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw ddull gwirio allanol ar gydymffurfiaeth landlordiaid â SATC yn cynnwys ystyried dehongliad landlordiaid o'r meini prawf methiant derbyniol.**

**Ymateb Cyfunol i 2 a 3: Derbyn mewn egwyddor**

Mae rhai landlordiaid eisoes yn dilysu eu cynnydd o ran cyrraedd y Safon yn annibynnol. Fodd bynnag, mae'r ymateb 'derbyn mewn egwyddor' yn adlewyrchu pryder y gall landlordiaid llai ei chael hi'n anodd gweithredu hyn am resymau'n ymwneud â chostau. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i nodi costau posibl ac yn penderfynu ar y cam gweithredu nesaf erbyn 31 Mawrth 2013.

Bydd y gwaith arfaethedig o werthuso SATC y cyfeiriwyd ato uchod yn cynnwys hap-samplu eiddo yn annibynnol a defnyddio data a gwybodaeth o'r gwirio annibynnol a gyflawnwyd eisoes. Bydd yr ymchwilwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau gan gynnwys adborth ar ba mor drwyadl a defnyddiol yw'r broses wirio annibynnol, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd. Wrth drafod â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, awdurdodau lleol, Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) gallwn wedyn benderfynu ar y cam gweithredu nesaf.

Cafodd trefn fonitro newydd ar gyfer SATC a gyflwynwyd yn 2010 ei hatgyfnerthu ymhellach eleni, a cheisiodd wella ac egluro sut y cofnodir methiannau derbyniol. Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg 2012 ar 15 Hydref ac mae gwybodaeth bellach ar gael gan landlordiaid am nifer y 'methiannau derbyniol' a'r rhesymau drostynt. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y ffurflenni i weld, er enghraifft, a oes angen gwneud rhagor o waith naill ai gyda'r sector cyfan neu gyda landlordiaid unigol. Penderfynir ar hyn erbyn mis Rhagfyr 2012.

**Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ddangos eu bod wedi mynd drwy broses o nodi a blaenoriaethu gwelliannau amgylcheddol ehangach i gyffiniau agos eiddo.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r gwaith presennol sy'n cael ei wneud gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) i lunio canllawiau a chynnal seminarau ar ofynion y safonau amgylcheddol i'w groesawu ac mae'n adeiladu ar ei waith *Guidance on the Interpretation of the WHQS Environmental Standard* a gyhoeddwyd yn 2008. Bydd Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r gwaith hwn drwy gyhoeddi canllawiau i landlordiaid erbyn 31 Mawrth 2013, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddangos eu bod wedi mynd drwy broses briodol yn eu cynlluniau busnes.

**Argymhelliad 5: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi amserlen arfaethedig glir i'w thrafodaethau â Thrysorlys EM ynglŷn â diwygio system y Cyfrif Refeniw Tai. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru hefyd egluro sut a phryd y caiff sefydliadau priodol eraill fod â rhan yn y gwaith o symud ymlaen i ddiwygio system y Cyfrif Refeniw Tai.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i adael system bresennol y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth eisoes wedi dweud y byddai'n hoffi gweld diwedd i'r broses o drosglwyddo refeniw erbyn 31 Mawrth 2013. Ond nid oes gennym unrhyw reolaeth dros brosesau gwneud penderfyniadau Trysorlys EM ac, er gwaethaf ein hymrwymiad i'r amserlen, mae'n bwysig cydnabod y gallai hyn danseilio ein gallu i gyflawni dymuniadau'r Gweinidog. Rydym yn parhau i gyd-drafod â Thrysorlys EM i gyflawni hyn o fewn y terfyn amser. Ar ôl dod i gytundeb, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen i ddangos sut y gellir cyflawni hyn a sut a phryd y caiff sefydliadau eraill eu cynnwys.

**Argymhelliad 6: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu canllawiau i landlordiaid ar sut i sicrhau'r buddion mwyaf posibl wrth adnewyddu tai i gyrraedd SATC.**

**Ymateb: Derbyn**

Rôl Gwerth Cymru yw rhoi cymorth ac arweiniad i'r sector cyhoeddus ar sicrhau'r buddion mwyaf posibl o ganlyniad i'w fuddsoddiad. Mae gwariant ar dai yn rhan graidd o hynny. Mae canllaw Gwerth Cymru - *Budd i'r Gymuned - Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru* a gyhoeddwyd yn 2010 - yn rhoi cyngor ar y dulliau gwahanol yr anogir caffaelwyr i'w mabwysiadu i sicrhau gwerth ychwanegol drwy gynnwys buddion cymunedol yn eu gweithgareddau caffael. Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor penodol i landlordiaid gyda chysylltiadau uniongyrchol i'r *Pecynnau Cymorth 'Gallu Gwneud'*, gan gynnwys canllawiau technegol a deunydd enghreifftiol.

Ategir y cyngor ymhellach gan y gwaith Hysbysu i Ymrwymo (i2i) sy'n cynnig cymorth uniongyrchol wedi'i dargedu i landlordiaid gan gynnwys cymorth drwy seminarau ar y cyd a chyngor pwrpasol i sefydliadau unigol.

Mae disgwyl i Ganllaw Gwerth Cymru gael ei ddiweddaru a byddwn yn ystyried sut y gellir gwella hyn er mwyn sicrhau y gweithredir argymhelliad y Pwyllgor yn llawn. Os bydd angen canllawiau ar wahân byddwn yn eu cynhyrchu ar y cyd â Gwerth Cymru a CIH Cymru. Disgwylir i'r canllaw diwygiedig gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2013.

**Argymhelliad 7: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau ar sut y gall landlordiaid gyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid yn cynnwys:**

- **Rhoi gwybod i denantiaid a yw eu cartref yn cydymffurfio/ddim yn cydymffurfio â SATC;**
- **Iaith briodol i'w defnyddio wrth gyfleu'r cysyniad o 'fethiant derbyniol'**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â cham gweithredu sy'n ofynnol o dan Argymhelliad 1. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i'r egwyddor bod landlordiaid yn cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid ac mae wedi nodi'n gynharach yn yr ymateb hwn ei bwriad i gomisiynu gwerthusiad o SATC a fydd yn cynnwys edrych ar enghreifftiau o arfer da ym maes ymgysylltu â thenantiaid.

Mae arfer da o ran hysbysu tenantiaid a yw eu cartref yn cydymffurfio ai peidio â SATC a defnyddio iaith briodol mewn perthynas â 'methiannau derbyniol' yn rhywbeth a gaiff ei ystyried yn benodol yn yr ymchwil. Bydd hyn yn helpu i lywio'r canllawiau (gweler yr ymateb i Argymhelliad 1) sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan CIH Cymru a Thenantiaid Cymru i'w gweithredu erbyn mis Mawrth 2014.

**Argymhelliad 8: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau i sicrhau bod y data a gesglir gan landlordiaid yn amlygu'r rhesymau am ddosbarthiadau methiant derbyniol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae system casglu data SATC a gyflwynwyd yn 2010, ac a wnaed yn fwy cadarn ar gyfer 2012, bellach yn cynnwys gofyniad ar landlordiaid i roi gwybod sawl eiddo sydd wedi cyrraedd SATC ond mae hefyd yn cynnwys o leiaf un elfen a ddosberthir fel methiant derbyniol. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar 15 Hydref yn nodi bod nifer yr eiddo sy'n cynnwys elfennau a ddosberthir fel methiant derbyniol yn amrywio'n sylweddol ymhlith landlordiaid. Byddwn yn cynnal ymweliadau sampl ar frys â landlordiaid i gadarnhau sut mae methiannau derbyniol yn cael eu dehongli ar lawr gwlad ac yna'n cyhoeddi canllawiau priodol drwy ymgynghori â landlordiaid.

Caiff y gwaith o gasglu data a gynllunnir ar gyfer 2013 ei wella i gofnodi nifer yr eiddo sy'n cydymffurfio â SATC sydd â methiannau derbyniol fesul prif reswm (h.y. cost yr ateb; amseriad yr ateb; dewis y trigolion; cyfyngiad ymarferol).

**Argymhelliad 9: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn asesu - mewn trafodaeth â landlordiaid - oblygiadau cost ac ymarferoldeb ei gwneud yn**

**ofynnol i landlordiaid roi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid i ddweud a yw eu cartref yn cydymffurfio â SATC.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd gwerthusiad SATC yn chwilio am arfer da o ran ymgysylltu â thenantiaid ac yn cadarnhau'r costau a'r problemau sy'n gysylltiedig â dull gweithredu unigol. Caiff hyn ei ymgorffori yn y broses o weithredu'r canllawiau sy'n hyrwyddo arfer da erbyn mis Mawrth 2014.

**Argymhelliad 10: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dull dilysu allanol ar gydymffurfiaeth landlordiaid â SATC hefyd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r rheoliadau iechyd a diogelwch.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd gwerthusiad SATC - y ceir adroddiad arno yn 2013 - yn edrych am dystiolaeth i gadarnhau y cydymffurfir â gofynion Iechyd a Diogelwch.

**Argymhelliad 11: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol cyn diwedd mis Rhagfyr 2012, yn cynnwys sut y mae'n datblygu'r gwersi ehangach a ddysgwyd o'r adroddiad.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi cynnydd yn ôl y gofyn.

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/JH/0395/12
Darren Miller AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA

31 Hydref 2012

Annwyl Darren,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref lle rydych yn gofyn am ragor y wybodaeth yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 22 Hydref 2012.

Rwyf wedi amgáu yn Atodiad 1 gymhariaeth o'r trefniadau goruchwylio a llywodraethu ar gyfer Awdurdodau'r Heddlu a Phrif Gwnstabliaid Cymru a'r cynigion o dan y Bil ar gyfer SAC ac ACC. Rwyf hefyd wedi amgáu yn Atodiad 2 rai enghreifftiau o fodelau byrddau goruchwylio a gweithredol eraill mewn perthynas â'r prif swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

O ran y darpariaethau yn y Bil a fydd yn caniatáu i ACC barhau i allu rhoi trefniadau sicrwydd ansawdd cadarn ar waith sy'n angenrheidiol, yn ei farn ef, er mwyn parhau i gydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol, gallaf gadarnhau bod y rhyngweithio rhwng cymalau 8, 18, 20 a 25 yn darparu ar gyfer cydymffurfio o'r fath.

Mae Cymal 8 o'r Bill yn gwneud darpariaethau ynghylch sut y caiff swyddogaethau ACC eu harfer. Yn y cymal hwn fe wneir darpariaeth i ACC gael disgresiwn llwyr dros y modd y caiff swyddogaethau'r swydd eu harfer. Pan fo ACC yn arfer swyddogaethau, fodd bynnag, neu pan gaiff swyddogaethau eu harfer ar ei ran, rhaid i ACC roi ystyriaeth, fel y mae'n ystyried yn briodol, i'r safonau a'r egwyddorion y disgwylir i ddarparwr arbenigol proffesiynol mewn cyfrifyddiaeth neu wasanaethau archwilio eu dilyn.

O dan Gymal 18 caniateir i ACC ddirprwyo ei swyddogaethau. Gall ACC sicrhau bod y personau sy'n arfer swyddogaethau ar ei ran yn cwrdd â'r safonau a'r egwyddorion perthnasol yng nghymal 8 gan fod cymal 18 yn darparu mai dim ond os yw'r person hwnnw wedi'i awdurdodi i arfer swyddogaethau ACC o dan gynllun a baratowyd gan ACC a'i gymeradwyo gan SAC y caniateir i swyddogaeth gael ei dirprwyo.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Mae Cymal 20 yn gosod dyletswydd ar ACC a SAC i baratoi amcangyfrif ar y cyd o incwm a gwariant SAC ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Bydd yr amcangyfrif hwnnw yn ystyried amcangyfrif o'r adnoddau y bydd gofyn i ACC eu cael gan SAC er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

Mae Cymal 25 yn gwneud darpariaeth ynghylch datblygu cynllun blynyddol a fydd yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael ac hefyd y gofynion o ran defnyddio'r adnoddau hynny drwy gydol y flwyddyn wrth gyflawni rhaglenni gwaith SAC ac ACC.

Wrth ddatblygu'r amcangyfrifon o gostau a'r cynllun blynyddol, dylai ACC a SAC ystyried y sgiliau a'r arbenigedd y bydd gofyn i'r staff eu harddangos drwy gydol y flwyddyn er mwyn cyflawni swyddogaethau'r swydd. Wrth wneud hynny dylai ACC a SAC, er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan gymal 8, ganfod unrhyw fylchau sgiliau yn yr adnoddau presennol ac ystyried hynny yn eu gwaith cynllunio blynyddol, naill ai o ran amser a chostau hyfforddi staff neu gostau prynu'r adnoddau perthnasol i mewn.

Mae'r holl ddarpariaethau uchod yn caniatáu i ACC gynllunio gwaith ac adnoddau yn flynyddol er mwyn sicrhau bod gwaith ACC neu'r personau sy'n gweithredu ar ei ran yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol.

O ran mater trosglwyddo staff, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y trosglwyddiad yn perthyn i un o'r eithriadau i'r Rheoliadau TUPE. Y bwriad polisi o'r cychwyn cyntaf, fodd bynnag, yw y byddai egwyddorion TUPE yn cael eu dilyn ac na fydd yn staff yn cael eu trin yn llai ffafriol o ganlyniad i'r trosglwyddiad. Rwyf i o'r farn bod Atodlen 3 o'r Bil yn sicrhau hynny. Mae'n sicrhau parhad cyflogaeth, gan y bydd y staff sy'n trosglwyddo yn cael eu trin fel pe baent wedi'u cyflogi gan y SAC newydd erioed. Bydd y cyflogeion hynny yn parhau i gael eu cyflogi yn unol â'u telerau a'u hamodau presennol ac ni fydd y trosglwyddiad yn cael effaith andwyol arnynt.

Ynglŷn â mater rhwymedigaethau treth ychwanegol, mae fy swyddogion yn derbyn cyngor cyfreithiol, a byddaf yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bydd y sefyllfa'n glir i ni.

Gallaf gadarnhau na fydd unrhyw beth yn y Bil yn atal neu'n gwahardd ACC rhag cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd Cymal 18 yn galluogi ACC i ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau. O ganlyniad i unrhyw ddirprwyo gall staff neu gontractwyr arfer yr un swyddogaethau ag ACC, gan gynnwys y rheini yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Yn gywir

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House

**CYMHARIAETH O SWYDDOGAETHAU GORUCHWYLIO A LLYWODRAETHU AWDURDODAU HEDDLU A PHRIF GWNSTABLIAID GYDA'R CYNIGION AR GYFER ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU YM MIL ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU)**

| | **Awdurdodau Heddlu** | **Prif Gwnstabliaid** | **Swyddfa Archwilio Cymru** | **Archwilydd Cyffredinol Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfansoddiad a chylch gwaith y sefydliad** | Mae Awdurdodau Heddlu'n gyrff corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau plismona effeithlon ac effeithiol yn ardal yr Awdurdod penodol. Mae gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Heddlu 17 aelod, 9 wedi'u hethol o awdurdodau lleol ardal yr heddlu ac 8 aelod annibynnol a benodir o'r gymuned gan yr Awdurdod Heddlu ei hun. Rhaid i o leiaf 3 o'r aelodau annibynnol fod yn ynadon. Mae Awdurdodau Heddlu'n gosod y cyfeiriad strategol i heddluoedd ac yn goruchwylio perfformiad y gwasanaeth. | Prif gwnstabliaid yw prif swyddog heddlu pob heddlu tiriogaethol yn y Deyrnas Unedig ac eithrio Heddlu Dinas Llundain a'r Heddlu Metropolitan a rhai heddluoedd arbennig. Mae Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau heddlu mewn ardal benodol ac yn gyfrifol i'w Awdurdod Heddlu lleol. Mae gan Brif Gwnstabl ddirprwy brif gwnstabl a phrif gwnstabl cynorthwyol. Bydd maint pob heddlu'n amrywio gan ddibynnu ar y lleoliad. | Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n gorff corfforaethol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru i fod â 7 aelod, 5 unigolyn nad ydynt yn gyflogedig gan Swyddfa Archwilio Cymru, aelodau anweithredol, yr Archwilydd Cyffredinol ac un gweithiwr sy'n gyflogedig gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn penodi'r cadeirydd o blith yr aelodau anweithredol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru gyflogi staff. Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gyfrifol am godi ffioedd ar gyfer swyddogaethau perthnasol Archwilydd Cyffredinol Cymru. | Bydd Swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru'n parhau ond Archwilydd Cyffredinol Cymru fydd prif weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru a bydd yn gweithredu fel swyddog cyfrifyddu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru'n eistedd ar fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru fel aelod gweithredol a rhaid iddo roi sylw i unrhyw gyngor y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n ei roi iddo mewn perthynas â'i swyddogaethau. |

| | **Awdurdodau Heddlu** | **Prif Gwnstabliaid** | **Swyddfa Archwilio Cymru** | **Archwilydd Cyffredinol Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| **Pennu Strategaethau a Chynlluniau** | Mae Awdurdodau Heddlu'n gyfrifol am bennu cynllun 3 blynedd, sy'n nodi'r strategaethau plismona ar gyfer y 3 blynedd i ddod. Caiff y cynllun ei ddatblygu gan ymgynghori â Phrif Gwnstabliaid heddluoedd yr awdurdod a chaiff ei gytuno gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid i unrhyw newidiadau mae'r Awdurdod Heddlu eisiau eu gwneud i'r cynllun 3 blynedd gael eu cytuno gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'u trafod gyda'r Prif Gwnstabl. Mae'r Awdurdodau Heddlu hefyd yn cyhoeddi Cynllun Plismona Lleol blynyddol sy'n cynnwys y blaenoriaethau, amcanion, adnoddau a thargedau perfformiad o ran plismona i'r Awdurdod ar gyfer y | Mae'r Prif Gwnstabl yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol 3 blynedd trwy gynnig y blaenoriaethau ar gyfer plismona i'r Awdurdod Heddlu.<br>Mae pob Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddrafftio Cynllun Plismona Lleol ar gyfer ei ardal, a gaiff ei gyflwyno wedyn i'r Awdurdod Heddlu ei ystyried. Mae gan yr Awdurdod Heddlu'r hawl i newid y cynllun arfaethedig ond rhaid iddo ymgynghori â'r Prif Gwnstabl os yw'n bwriadu gwneud hynny. Wrth baratoi'r cynllun rhaid i'r Prif Gwnstabl roi sylw i unrhyw ganllawiau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau. | Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gytuno ar gynllun blynyddol sy'n nodi eu rhaglenni gwaith, yr adnoddau sydd ar gael ac a fydd o bosibl ar gael drwy gydol y flwyddyn, a'r ffordd y dyrennir yr adnoddau hynny i Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru er mwyn iddynt gyflawni eu rhaglenni gwaith. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cael y datganiad blynyddol (gweler cyfrifoldebau cynllunio Archwilydd Cyffredinol Cymru) gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a gall gytuno ag ef neu ei wrthod, yn llwyr neu'n rhannol, a gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyflwyno datganiad newydd neu ddiwygiedig. Ni all Swyddfa Archwilio Cymru wrthod y datganiad ond os yw ef neu unrhyw ran ohono'n afresymol. Yna defnyddir y datganiad i ffurfio rhan o'r Cynllun Blynyddol. Rhaid i'r cynllun | Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru baratoi datganiad i Swyddfa Archwilio Cymru sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer ei waith yn y flwyddyn i ddod wrth arfer ei swyddogaethau, ac yn nodi'r adnoddau mwyaf y bydd eu hangen i gyflawni ei raglen waith. |

| | Awdurdodau Heddlu | Prif Gwnstabliaid | Swyddfa Archwilio Cymru | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| | flwyddyn i ddod. Rhaid i'r Awdurdod Heddlu, wrth ddatblygu'r strategaeth 3 blynedd a'r strategaeth plismona flynyddol, roi sylw i unrhyw ganllawiau a chodau ymarfer y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu cyhoeddi mewn perthynas ag awdurdodau heddlu'n cyflawni eu swyddogaethau. | | blynyddol cytunedig gael ei osod gan gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | |
| **Pennu Amcanion a Thargedau** | Gan ymgynghori gyda Phrif Gwnstabliaid, mae'r Awdurdod Heddlu'n pennu blaenoriaethau plismona a thargedau perfformiad blynyddol ar gyfer pob heddlu yn ardal awdurdod. Caiff y rhain eu nodi yn y Cynllun Blynyddol Lleol. Wrth ddatblygu blaenoriaethau, amcanion a thargedau perfformiad, rhaid rhoi ystyriaeth i unrhyw | Rhaid i'r Prif Gwnstabl roi sylw i'r Cynllun Plismona Lleol wrth gyflenwi gwasanaethau heddlu. Mae gan y Prif Gwnstabl ddisgresiwn ynglŷn â'r modd yr arferir swyddogaethau'r heddlu. | Mae'r rhaglenni gwaith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel y'u nodir yn y Cynllun Blynyddol, yn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith y flwyddyn i ddod. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru nac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'u rhwymo gan y cynllun blynyddol ond rhaid iddynt roi sylw iddo wrth arfer eu swyddogaethau. | Bydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddisgresiwn llwyr ynglŷn â'r ffordd yr arferir swyddogaethau ei swydd ond rhaid iddo anelu at gyflawni'r swyddogaethau mewn ffordd effeithlon a chost-effeithiol. |

| | Awdurdodau Heddlu | Prif Gwnstabliaid | Swyddfa Archwilio Cymru | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| | amcanion a nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Cynllun Plismona Cenedlaethol blynyddol a gyhoeddir. | | | |
| **Dyrannu Adnoddau** | Mae cyllideb flynyddol yr Awdurdodau Heddlu yng Nghymru'n dod o dair ffynhonnell, sef arian oddi wrth y Swyddfa Gartref, arian oddi wrth Lywodraeth Cymru ac arian o braeseptau'r Dreth Gyngor. Ar ôl cael ei gyllideb gyfan, mae'r Awdurdod Heddlu'n pennu'r cyllidebau blynyddol ar gyfer ei heddluoedd unigol. Caiff y cyllidebau eu cyhoeddi yn y Cynllun Plismona Lleol blynyddol. | Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau, yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Plismona Lleol, gan ddefnyddio'r gyllideb a ddyrennir iddo gan yr Awdurdod Heddlu. | Swyddfa Archwilio Cymru ac ydd Cyffredinol Cymru gyd-amcangyfrif o incwm a threuliau a Archwilio Cymru a gosod yr yfrif gerbron Cynulliad ethol Cymru o leiaf 5 mis cyn 'r flwyddyn ariannol mae'n d â hi. Gall Cynulliad ethol Cymru wneud unrhyw dau i'r amcangyfrif y mae'n u bod yn briodol. Rhaid i a Archwilio Cymru ddarparu'r au y mae eu hangen drwy gydol yn i Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei swyddogaethau. | Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi amcangyfrif i Swyddfa Archwilio Cymru o'r adnoddau mwyaf y bydd eu hangen er mwyn cyflawni'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod. |
| **Trefniadau adrodd** | Mae'r Awdurdod Heddlu'n gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth plismona'n rhoi gwerth am arian trwy gomisiynu archwiliadau | Mae dyletswydd wedi'i gosod ar y Prif Gwnstabl i gyflwyno adroddiad cyffredinol ar y gwaith plismona yn ystod y flwyddyn, cyn gynted ag | Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi adroddiad blynyddol ar y ffordd yr arferwyd swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru | Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru weithio gyda Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru i baratoi'r adroddiad |

| | Awdurdodau Heddlu | Prif Gwnstabliaid | Swyddfa Archwilio Cymru | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| | ariannol. Mae Awdurdodau Heddlu'n gyfrifol am gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar y cyflawniad yn erbyn y Cynllun Plismona Lleol a'r Cynllun Strategol 3 blynedd. Rhaid i'r rhain gael eu cyhoeddi a rhaid i gopi gael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Awdurdod Heddlu'n gyfrifol am gyhoeddi'r cyfrifon blynyddol ar gyfer y gyllideb a ddyrennir iddo. Mae hyn yn cynnwys gwariant yr heddluoedd unigol mewn awdurdod. | sy'n bosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. | yn ystod y flwyddyn.<br>Rhaid i gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar y cyd, baratoi dau adroddiad interim ar y ffordd yr arferwyd swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r cyflawniad yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun blynyddol.<br>Rhaid i gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar y cyd, osod yr adroddiad blynyddol a'r ddau adroddiad interim gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | blynyddol ar y ffordd yr arferwyd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Rhaid i'r adroddiad ystyried sut mae'r ffordd yr arferwyd ei swyddogaethau wedi bod yn gyson â'r cynllun blynyddol a nodi'r cynnydd a gyflawnwyd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd weithio gyda Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru i baratoi dau adroddiad interim a gosod y tri adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fel y swyddog cyfrifyddu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gyfrifol am |

| | Awdurdodau Heddlu | Prif Gwnstabliaid | Swyddfa Archwilio Cymru | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| | | | | baratoi’r datganiadau cyfrifon blynyddol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru’n unol â’r cyfarwyddiadau a roddir gan y Trysorlys. |

## Trefniadau Llywodraethu Cyrff Cyhoeddus Cymru

## Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ynghyd ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ill dau'n enghreifftiau o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru'n gyrff gweithredol a sefydlwyd i arfer swyddogaethau yn eu hawl eu hunain gan ddefnyddio arian cyhoeddus. Mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru'n cael eu harwain gan fyrddau sy'n gyfrifol am weithrediadau'r corff o ddydd i ddydd ond sy'n atebol i Weinidogion Cymru.

Penodir aelodau'r Byrddau gan Weinidogion Cymru'n unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus.

Mae gan bob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru adran noddi sy'n arfer rhywfaint o reolaeth a goruchwyliaeth dros y corff. Mae Llywodraeth Cymru'n gosod cyfeiriad strategol ac agenda Cyrff unigol a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac yn gosod y fframwaith strategol y mae'r cyrff yn gweithredu o dano.

Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi'r berthynas rhwng y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a'r Gweinidogion, manylion swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Gweinidog, yr adran noddi a'r bwrdd, trefniadau atebolrwydd ac archwilio'r bwrdd, trefniadau rheoli'r corff gan gynnwys rheoli'r staff, busnes, cyllideb a rheoli gwaith adolygu a chyfrifoldebau ariannol y corff. Mae'r fframwaith yn cael ei gytuno rhwng y corff a'i Weinidog a'i lofnodi gan y ddau barti a'i adolygu o dro i dro.

Mae llythyr cylch gwaith yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn i Gyrff unigol a Noddir gan Lywodraeth Cymru gan y Gweinidog perthnasol. Mae'r llythyr yn nodi'r targedau lefel uchel a'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod ac yn cynnwys manylion lefel yr arian a ddyrennir ar gyfer y flwyddyn honno.
Mae cynnwys y llythyr cylch gwaith yn llywio datblygiad y cynllun gweithredol, y mae'r perfformiad blynyddol yn cael ei fonitro yn ei erbyn. Dylai'r cynllun gael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae swyddogion cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn gyd-gyfrifol am yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario trwy nawdd Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd cyfrifoldeb ariannol yn cael ei ddirprwyo i'r graddau mwyaf posibl.

## Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
Sefydlwyd CCAUC o dan statud ac mae'n gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru.

Mae CCAUC yn cael ei arwain gan gyngor o hyd at 12 aelod, sy'n aelodau anweithredol, ac eithrio'r Prif Swyddog Gweithredol, y mae'n rhaid iddo eistedd ar y cyngor.

Penodir yr aelodau am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd ond gellir eu hailbenodi am ddau gyfnod arall ar yr amod bod eu perfformiad yn foddhaol.

Mae gan y Cyngor 7 pwyllgor sy'n ei wasanaethu. Mae rhai'n rhoi cyngor ac mae eraill yn cymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau gweithredol allweddol y corff.

Mae gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru hawl i fynychu cyfarfodydd y Cyngor neu gyfarfodydd unrhyw un o bwyllgorau'r Cyngor.

## Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

Sefydlwyd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru o dan Siarter Frenhinol.

Mae gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru fwrdd ymddiriedolwyr sy'n cynnwys 9 unigolyn a benodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y Llywydd a'r Is-lywydd, 7 unigolyn a benodir gan yr ymddiriedolwyr, gan gynnwys y trysorydd, a chyn-lywydd neu gyn-gadeirydd yr ymddiriedolwyr, a benodir hefyd gan yr Ymddiriedolwyr.

Gellir penodi ymddiriedolwyr am hyd at 4 blynedd a gellir eu hailbenodi am gyfnodau olynol yn y swydd o 9 mlynedd ar y mwyaf. Penodir cyn-lywydd neu gyn-gadeirydd yr ymddiriedolwyr am gyfnod o flwyddyn ar y mwyaf.

Mae'r ymddiriedolwyr yn paratoi cyfrifon blynyddol yr Amgueddfeydd ac yn paratoi adroddiad blynyddol ar faterion busnes a sefyllfa'r Amgueddfeydd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

## Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru

Mae GIG Cymru'n cynnwys 7 Bwrdd Iechyd Lleol a 3 Ymddiriedolaeth. Mae'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau yng Nghymru'n cael eu llywodraethu gan fyrddau gweithredol.

Mae gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb am osod y polisi a'r fframwaith strategol y mae'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru'n gweithredu o danynt. Mae gan y Gweinidog gyfrifoldeb hefyd am fframwaith adnoddau cyffredinol y GIG yng Nghymru ac mae'n pennu'r ffordd y'i dosberthir yn strategol. Mae'r Gweinidog yn gosod y safonau a'r fframwaith perfformiad i GIG Cymru ac yn dal arweinwyr y GIG yn gyfrifol. Mae ei swyddogaethau wrth osod safonau, monitro perfformiad a dal arweinwyr yn gyfrifol yn cael eu cefnogi gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol yn bodoli i roi cyngor annibynnol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth gyflawni eu swyddogaethau wrth fodloni atebolrwyddau ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cyfuniad o aelodau gweithredol ac anweithredol gan

gynnwys Prif Weithredwr GIG Cymru a chynrychiolwyr o lywodraeth leol, y trydydd sector ac undebau llafur, ac mae'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cael ei wasanaethu gan y Grŵp Cyflawni Cenedlaethol, grŵp o uwch swyddogion iechyd Llywodraeth Cymru yn bennaf, sy'n cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr GIG Cymru. Mae'r grŵp yn gyfrifol am ddarparu arweiniad a rheolaeth strategol i'r GIG yng Nghymru ac yn rhoi cyngor polisi i'r Gweinidog wrth oruchwylio'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau yn eu gwaith o ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau'r GIG, yn unol â'r cyfeiriad a osodir gan y Gweinidog.

Mae'r 7 BILl yn atebol yn ffurfiol i'r Gweinidog trwy Brif Weithredwr y GIG ac mae'r Prif Weithredwr yn dirprwyo cyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu i brif weithredwyr unigol y BILlau.

Mae'r BILlau yn gyfrifol am gynllunio, dylunio, datblygu a sicrhau y cyflenwir gwasanaethau iechyd i'r dinasyddion yn eu hardaloedd. Mae'r model hwn yn sicrhau bod y pwyslais yn parhau ar gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid lleol, yn arbennig mewn perthynas â Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

## Byrddau Iechyd Lleol

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol weithredu'n unol â'r fframwaith llywodraethu ehangach a nodir ar gyfer y GIG yng Nghymru. Yn lleol, mae'n rhaid i BILlau yng Nghymru gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio eu gweithrediadau a'u busnes. Mae'r rheolau sefydlog hyn wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn rheoliadau cysylltiedig y GIG yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd, ac, ynghyd â mabwysiadu cynllun penderfyniadau a gedwir i'r Bwrdd; cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill; a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes y BILl ac yn diffinio ei ffyrdd o weithio.

Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol yn cynnwys aelodau sy'n swyddogion a rhai nad ydynt yn swyddogion. Mae'r aelodau sy'n swyddogion yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Prif Swyddog a hyd at 9 swyddog ychwanegol. Mae'r aelodau anweithredol yn cynrychioli proffesiynau a gwasanaethau iechyd allweddol.

Gall fod hyd at 9 o aelodau anweithredol ar y bwrdd ac maent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, undebau llafur, y sector gwirfoddol a phrifysgol sy'n addysgu pynciau cysylltiedig ag iechyd. Mae'r aelodau nad ydynt yn swyddogion yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru trwy'r weithdrefn penodiadau cyhoeddus am gyfnod cychwynnol o hyd at 4 blynedd. Gellir ailbenodi aelodau am gyfnod arall ond dim ond am gyfnod o 8 mlynedd ar y mwyaf.

## Ymddiriedolaethau GIG Cymru

Mae yna 3 Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru sy'n gweithredu asiantaethau a gwasanaethau ledled y wlad.

Mae strwythur byrddau Ymddiriedolaethau GIG Cymru'n debyg yn fras i strwythur y BILlau.

Mae'r byrddau'n cynnwys cyfuniad o aelodau gweithredol ac anweithredol gyda Chadeirydd, Prif Weithredwr a 5 cyfarwyddwr gweithredol a 6 chyfarwyddwr anweithredol.

Ymysg y cyfarwyddwyr anweithredol mae cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, undebau llafur neu gorff arall sy'n cynrychioli staff yr ymddiriedolaeth, y sector gwirfoddol a phrifysgol sy'n addysgu pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu cynrychioli gan y prif swyddog, y prif swyddog cyllid a 3 chyfarwyddwr arall a benodir gan yr ymddiriedolaeth.

Penodir Cyfarwyddwyr Anweithredol yr Ymddiriedolaeth gan Weinidogion Cymru trwy'r weithdrefn penodiadau cyhoeddus am gyfnod o 4 blynedd.

Penodir cyfarwyddwyr gweithredol y bwrdd gan y pwyllgor perthnasol.

Darren Millar AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Hydref 2012

Annwyl Darren

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd - Adroddiad Byr ar Ddiogelu'r Arfordir**


Yn rhan o waith a etifeddwyd gan y Cynulliad blaenorol, ar 21 Mawrth 2012 cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i bwyso a mesur cynnydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau atal llifogydd Cymru wrth weithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a'r Cynlluniau Rheoli Traethlin cysylltiedig.

Mae'r gwaith hwn yn dilyn adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar *Risgiau o Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009 a mis Mai 2010. Felly, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y cafodd adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor ei gyhoeddi heddiw, sef dydd Llun, 22 Hydref. Rydym wedi rhoi gwybod i Swyddfa Archwilio Cymru am waith y Pwyllgor yn y maes hwn hefyd.

O ystyried bod llai na blwyddyn ers sefydlu'r Strategaeth Genedlaethol, mae'r Pwyllgor yn cynnig y dylid cadw golwg ar gynnydd a chynnal adolygiad arall pan fydd y Cynlluniau Rheoli Traethlin wedi eu sefydlu ymhellach. Mae 11 o argymhellion y Pwyllgor yn cynnwys: ceisio sicrhad y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau cynlluniau a gweithgareddau sy'n deillio o'r Strategaeth Genedlaethol erbyn yn gynnar yn 2014 (Argymhelliad 4); a bod adroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf ar weithredu'r Rhaglen Fuddsoddi Sengl ar gyfer diogelu'r arfordir yn cael ei ddarparu i ni erbyn hydref 2013 (Argymhelliad 8).

Rwy'n gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor wrth baratoi ei flaenraglen waith. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru er gwybodaeth iddo.

Yn gywir



**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

CC: Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru


Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA
Ffôn | Tel: 029 2089 8709/8639
E-bost | Email:dafydd.elis-thomas@cymru.gov.uk
alun.davidson@cymru.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 30 Hydref 2012
Ein cyf: HVT/1753/fgb
Tudalen: 1 o 1

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Darren

## AMCANGYFRIF YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN AR 31 MAWRTH 2014

Ar ôl i'm Hamcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2013-14 gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 23 Hydref 2012, gofynnwyd i mi ystyried diwygio'r Amcangyfrif drwy hepgor £250,000 o gostau y disgwylir y byddant yn deillio o weithredu Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ac yn lle hynny, ystyried eu cynnwys mewn Amcangyfrif atodol maes o law.

Rwyf wedi diwygio fy Amcangyfrif gwreiddiol yn unol â hynny ac atodaf Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2013-14 i'w ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2012.

Byddaf yn cynnwys fy amcangyfrif diweddaraf o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil mewn Amcangyfrif atodol wrth i ofynion arfaethedig y Bil ddod yn gliriach yn ystod ei hynt drwy'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg*

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Hydref 2012
www.wao.gov.uk

# Amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014

# Amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol yw archwilwyr allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir yn flynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau o'r arian hwn i'r GIG yng Nghymru (dros £5 biliwn) ac i lywodraeth leol (dros £4 biliwn).

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2005. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio'r Swyddfa yn gyffredinol yn ogystal â'i gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.

Rhoddir crynodeb o brif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol, ochr yn ochr â ffynonellau ariannu cysylltiedig, yn Atodiad 1 i'r amcangyfrif hwn. Caiff tua dwy ran o dair o'r gwaith archwilio blynyddol ei gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi'r gweddill ar gontract allanol i gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat.

# Cynnwys


Cyflwyniad a chrynodeb o'r gofynion cyllidebol 4

Dull gweithredu strategol 9

Amcangyfrif o incwm a threuliau 10

Gostyngiadau yn yr incwm o ffioedd 12

Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd eraill 12

Costau ychwanegol yr eir iddynt 14

Meysydd lle y ceir ansicrwydd 15

Atodiadau

Atodiad 1 - Prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol, a ffynonellau ariannu cysylltiedig 17

Atodiad 2 - Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014 18

Atodiad 3 - Amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014 20

# Cyflwyniad a chrynodeb o'r gofynion cyllidebol

1 Fel yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n rhaid i mi baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau fy swyddfa (Swyddfa Archwilio Cymru) ar gyfer pob blwyddyn ariannol a chyflwyno'r amcangyfrif i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus[1].

2 Gwahoddaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i archwilio'r amcangyfrif hwn o'm hincwm a'm treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014 a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

3 Mae'r amcangyfrif rwyf yn ei gyflwyno yn darparu ar gyfer cynnydd o £0.5 miliwn yn yr arian refeniw y gofynnir amdano eleni, o £4.724 miliwn i £5.224 miliwn.

4 Rwyf yn ceisio'r adnodd ychwanegol hwn o £0.5 miliwn yn benodol er mwyn cynyddu lefel y cymorth y gallaf ei roi i gyrff cyhoeddus sy'n ceisio cynyddu effeithlonrwydd a sicrhau gwelliannau pellach, drwy arloesi, sy'n arbennig o bwysig yn y sefyllfa economaidd bresennol: fel y nodaf isod byddai £250,000 o'r swm hwn yn fy ngalluogi i gefnogi buddsoddiad ychwanegol yn y gwaith o rannu arfer da a byddai £250,000 yn fy ngalluogi i ymateb yn brydlon i geisiadau cynyddol am waith ad hoc heb beri oedi i'r gwaith o gyflawni fy rhaglen o astudiaethau cenedlaethol.

5 Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi hwyluso a llywio gwelliannau i wasanaethau, gwerth am arian a chyfranogiad dinasyddion ym mhob rhan o Wasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy drosglwyddo gwybodaeth ardderchog gan ddefnyddio'r Gyfnewidfa Arfer Da (y Gyfnewidfa). Er bod parch mawr tuag at ein gwaith ym maes arfer da, rwyf o'r farn nad ydym eto yn manteisio i'r eithaf ar botensial ein gwybodaeth archwilio a mynediad at arfer da er budd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bellach, rydym yn ceisio cynyddu'r buddsoddiad blynyddol yn y Gyfnewidfa £250,000, er mwyn cyflawni'r canlynol:

- gwelliannau pellach mewn gwasanaethau a gwell gwerth am arian drwy wneud defnydd helaeth o wybodaeth ac arfer da a ledaenir drwy broses o weithgareddau wyneb yn wyneb a gweithgareddau rhithwir;
- cynnwys dinasyddion yn fwy drwy fynd ati i ledaenu gwybodaeth drwy'r Gyfnewidfa.

6 Bydd £250,000 o arian ychwanegol hefyd yn ein galluogi i ymateb yn brydlon i'r nifer gynyddol o geisiadau rwyf yn eu cael am ymchwiliadau arbennig a gwaith ad hoc, y mae rhai ohonynt wedi dod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae enghreifftiau diweddar wedi cynnwys yr ymchwiliadau i AWEMA a River Lodge. Heb yr arian ychwanegol hwn, mae'n anochel yr effeithir ar nifer yr astudiaethau cenedlaethol a gynlluniwyd ymlaen llaw y gallaf eu cyflawni, a fyddai'n effeithio ar fy ngallu i ymdrin â gwariant yn y sector cyhoeddus yng Nghymru mewn modd cynhwysfawr.

1 O leiaf pum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, fel y nodir o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006).

7 Rwyf wedi amlinellu yn adran Meysydd lle y ceir ansicrwydd yr Amcangyfrif hwn bod posibilrwydd y ceir costau ychwanegol yn dilyn gweithredu'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Ar ôl i mi gyflwyno f'Amcangyfrif gwreiddiol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 23 Hydref 2012, ac ar gais y Pwyllgor, rwyf wedi dileu'r costau o £250,000 yn 2013-14 sy'n ymwneud â'r Bil o'r Amcangyfrif terfynol. Byddaf yn cynnwys amcangyfrif wedi ei ddiweddaru o'r costau yr wyf o'r farn fyddai'n deillio o weithredu anghenion y Bil mewn Amcangyfrif Atodol, wrth i anghenion arfaethedig y Bil ddod yn fwy amlwg.

8 Heblaw am y £0.5 miliwn o arian ychwanegol a glustnodwyd, y dylid ei ystyried ar wahân, mae fy nghais am refeniw wedi'i rewi mewn termau arian parod ar y lefel a gymeradwywyd ar gyfer 2012-13, ac mewn termau real mae'n cyfateb i ostyngiad o 2.5 y cant yng nghostau fy swyddfa. Y refeniw a geisir ar gyfer 2013-14 yw'r isafswm sydd ei angen er mwyn i Swyddfa Archwilio Cymru barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'r cyrff a archwilir gennym ar ran pobl Cymru.

9 Nodaf yn yr amcangyfrif hwn fy mwriad i gadw lefelau ffioedd cyffredinol ar yr un lefel o arian parod ag ar gyfer 2012-13 (gostyngiad o 2.5 y cant mewn termau real yn dilyn gostyngiadau sylweddol pellach mewn termau real yn ystod blynyddoedd cynharach fel y dangosir yn Arddangosyn 3). Fodd bynnag, mae fy ngallu i gadw lefelau ffioedd ar y lefel hon, yn wyneb arbedion effeithlonrwydd o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar gymeradwyo'r cais am adnoddau a geir yn yr amcangyfrif hwn.

10 Byddwn yn parhau i geisio arbedion ac arbedion effeithlonrwydd pellach lle bynnag y bo modd, a fydd yn golygu gwneud rhai penderfyniadau anodd fel sy'n digwydd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, ni fydd yr arbedion hyn ar y lefel a gyflawnwyd yn 2011-12, lle roedd gostyngiadau sylweddol yn ein sylfaen costau a'n gallu i gynhyrchu incwm ychwanegol wedi ein galluogi i ariannu darpariaethau ar gyfer trethiant gwerth mwy na £2.6 miliwn.

11 Mae'r ffaith ein bod yn gallu ariannu'r darpariaethau hyn o adnoddau presennol wedi atal cais am arian atodol gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2011-12. Ni fyddem wedi bod yn y sefyllfa hon pe na bai Swyddfa Archwilio Cymru wedi gohirio rhywfaint o wariant a gyllidebwyd yn wreiddiol ar gyfer 2011-12, a heb gymorth ac ymrwymiad llawer o aelodau o'm staff a weithiodd oriau ychwanegol i gyflawni prosiectau ychwanegol a gynhyrchodd incwm pellach gwerth tua £1.4 miliwn.

12 Roedd enghreifftiau o feysydd lle y bu'n rhaid i ni ohirio gwariant yn 2011-12 yn cynnwys gohirio gwariant cyfalaf ar unedau fideogynadledda ychwanegol sydd eu hangen i leihau ein gwariant ar deithio a chynhaliaeth ymhellach yn y dyfodol a gohirio dechrau IGNITE 2, sef ein rhaglen hyfforddi ar gyfer datblygu rheolwyr. Bydd angen ariannu'r gwariant hwn yn 2012-13 ac yn 2013-14.

13 Roedd yr incwm ychwanegol a gynhyrchwyd yn 2011-12 yn fwy nag erioed o'r blaen ac mae'n annhebygol o ddigwydd eto. Nodais yn fy llythyr dyddiedig 26 Medi 2012 i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â'm hadroddiad blynyddol a'r cyfrifon y prif resymau pam y cynhyrchwyd yr incwm ychwanegol hwn.

14 Dengys Arddangosyn 1 yr amrywiant cronnol mewn termau real yng nghyfanswm y gofyniad adnoddau refeniw net a geisiwyd ar gyfer y blynyddoedd 2009-10 i 2013-14. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nodi, hyd yn oed o ystyried y swm ychwanegol o £0.5 miliwn a geisir ar gyfer 2013-14, bod gostyngiad o 6.6 y cant mewn termau real wedi bod yn yr adnoddau net a geisir gennym yn ystod y cyfnod o bum mlynedd. Heb y cais ychwanegol hwn, sydd ei angen er mwyn helpu i hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus, y gostyngiad mewn termau real yw 15.5 y cant.


15 Yn Arddangosyn 2(a) rhoddaf amcangyfrif o sut y defnyddir yr adnodd refeniw net a geisir ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014.

16 Rwyf hefyd wedi cynnwys cais am adnoddau cyfalaf gwerth £20,000 i helpu i ddatblygu ein seilwaith TGCh, megis adnewyddu serfwyr. Mae ein cyfrifiaduron ar yr un lefel mewn termau arian parod â'm cais ar gyfer 2011-12 (fel y dangosir yn Arddangosyn 2(b)).

17 Cyflwynir fy ngofynion cyllidebol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014 mewn fformat sy'n briodol i'w gynnwys yng Nghynnig Cyllidebol y Gweinidogion yn Atodiad 2, ynghyd â'r gofyniad adnoddau net wedi'i gysoni â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru.

18 Yn ogystal â'r symiau a ddangosir yn Atodiad 2, caf incwm o waith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol, nad yw'n rhan o'r swm i'w awdurdodi gan Gynnig Cyllidebol ond fe'i cynhwyswyd yn yr amcangyfrif hwn er gwybodaeth. Yn ystod 2013-14, amcangyfrifir bod y ffrydiau incwm hyn yn cyfateb i £9.825 miliwn, o gymharu â £9.576 miliwn yn 2012-13 (gweler Atodiad 3 lle mae'r croniadau incwm amcangyfrifedig wedi'u cysoni â chyfanswm y ffioedd ac incwm arall).

**Arddangosyn 1 - Yr amrywiant cronnol mewn termau real yn y gofyniad adnoddau refeniw net a geisiwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2009-10 a 2013-14**



**Arddangosyn 2(a) - Amcangyfrif o'r defnydd a wneir o'r gofyniad adnoddau refeniw net yn 2013-14 a chymhariaeth â cheisiadau a gymeradwywyd ar gyfer 2012-13 a 2011-12**

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian gan yr Archwilydd Cyffredinol | 1,885 | 1,635 | 1,635 |
| Gweithio gydag eraill i rannu dysgu, gan gynnwys darparu'r Gyfnewidfa Arfer Da | 450 | 200 | 200 |
| Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol | 250 | 250 | 250 |
| Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill | 80 | 80 | 80 |
| Cymeradwyo ceisiadau i hawlio arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 15 | 15 | 15 |
| Cyfraniadau at y canlynol: | | | |
| Hyfforddi a datblygu staff | 792 | 792 | 850 |
| Seilwaith TGCh | 772 | 772 | 850 |
| Cymorth technegol, ymchwil a datblygu | 500 | 500 | 500 |
| Datblygu a gwella busnes | 360 | 360 | 453 |
| Cyflawni dyletswyddau cydraddoldeb | 80 | 80 | 0 |
| Cydnabyddiaeth aelodau'r pwyllgor llywodraethu (a chostau newidiadau deddfwriaethol arfaethedig) | 40 | 40 | 0 |
| Cynllun ymadael gwirfoddol | 0 | 0 | 550 |
| **Cyfanswm y gofyniad gwariant refeniw** | **5,224** | **4,724** | **5,383** |

**Arddangosyn 2(b) - Amcangyfrif o'r gofyniad adnoddau cyfalaf net yn 2013-14 a chymhariaeth â cheisiadau a gymeradwywyd ar gyfer 2012-13 a 2011-12**

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gofyniad gwariant cyfalaf** | **20** | **16** | **20** |

# Dull gweithredu strategol

19 Yn fuan, byddaf yn ymgynghori ar strategaeth gorfforaethol newydd a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2013 a 2016. O fewn fy nrafft ymgynghori byddaf yn nodi ymrwymiadau strategol i wneud y canlynol:

- gwneud gwaith gwerth am arian â 'phwyslais ar galedi' i helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd eraill;
- gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad a chynyddu ein gweithgarwch rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da er mwyn galluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fanteisio ar brofiadau mewn mannau eraill;
- adolygu ein fframwaith archwilio er mwyn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd;
- drwy ein gwaith archwilio, adrodd yn fwy cynhwysfawr ar gydymffurfiaeth â dyletswyddau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a defnyddio'r Gymraeg a dangos ein bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny;
- gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio;
- gwella'r defnydd rydym yn ei wneud o dechnoleg gwybodaeth ac adrodd yn fwy cynhwysfawr ar b'un a yw cyrff eraill yn gwneud y defnydd gorau ohoni.


20 Datblygwyd fy amcangyfrif er mwyn rhoi sylfaen i mi helpu i gyflawni'r ymrwymiadau strategol hyn.

# Amcangyfrif o incwm a threuliau

**21** Ceir fy amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a'r gofyniad adnoddau net sy'n deillio o hynny ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014 yn Atodiad 3.

**22** Dengys Arddangosyn 3 ac Arddangosyn 4 y gostyngiadau cronnol mewn termau real yng ngwariant refeniw Swyddfa Archwilio Cymru a'i hincwm o ffioedd archwilio yn y drefn honno rhwng 2009-10 a 2013-14.


**Arddangosyn 3 - Gostyngiad cronnol mewn termau real yng nghyfanswm gwariant refeniw blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 2009-10 a 2013-14**



**23** Dengys Arddangosyn 3 fy ymrwymiad parhaus i leihau fy ngwariant blynyddol, yr wyf yn amcangyfrif y bydd wedi gostwng 20.5 y cant mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14 (gan gynnwys y swm ychwanegol o £500,000 rwy'n ceisio ei ariannu drwy'n amcangyfrif hwn). Fel yr esboniwyd ym mharagraff 10-12 (uchod), mae'r cynnydd rhwng gwariant a gyllidebwyd ar gyfer 2012-13 a gwariant alldro yn 2011-12 i'w briodoli'n bennaf i'r penderfyniad i ohirio gwariant penodol yn 2011-12 a'n galluogodd i ariannu rhwymedigaethau treth hanesyddol a nodwyd gennym, a fyddai fel arall wedi gofyn am arian atodol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**24** Fodd bynnag, ni allaf gynnal gwariant ar lefel 2011-12 yn ddi-ben-draw tra'n parhau i ddarparu gwasanaeth archwilio effeithiol ar ran pobl Cymru. Mae angen llawer o'r gwariant a ohiriwyd o 2011-12 er mwyn buddsoddi mewn staff a datblygiadau eraill a lleihau costau yn y tymor hwy (e.e. gwneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau fideogynadledda i leihau gwariant ar deithio) a bydd angen ei ariannu yn 2012-13 neu yn 2013-14. Rwy'n bwriadu ariannu'r gwariant uwch hwn drwy bennu targedau ar gyfer effeithlonrwydd mewnol ar gyfer 2013-14 a sicrhau gostyngiad mewn gwariant o tua 2.5 y cant mewn termau real.

**Arddangosyn 4 - Gostyngiad cronnol mewn termau real mewn ffioedd a godir yn flynyddol ar gyrff a archwilir rhwng 2009-10 a 2013-14**



## Gostyngiadau yn yr incwm o ffioedd

**25** Yn fy Amcangyfrif y llynedd ac wrth roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor nodaf ein bod wedi cyflawni gostyngiad o £1.27 miliwn mewn termau arian parod (8 y cant) rhwng 2009 a 2011 yn y ffioedd a godwyd gennym am archwiliadau llywodraeth leol, y GIG a llywodraeth ganolog a gwaith ar gyfer llywodraeth leol. Cyflawnwyd y gostyngiad hwn drwy wneud arbedion cost, drwy wella effeithlonrwydd a thrwy weithio mewn modd mwy cymesur. Nodais fy mod yn bwriadu cyflawni gostyngiadau pellach o hyd at 5 y cant yn 2012-13 ond mai prin oedd y cyfle i gyflawni gostyngiadau pellach yn 2013-14. Mynegodd grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor rywfaint o bryder ynghylch maint y gostyngiad a gofynnodd i mi gadarnhau na fyddai gostyngiadau parhaus yn effeithio ar ansawdd fy ngwaith. Gallaf gadarnhau nad yw hyn wedi digwydd ac ategir y farn hon gan fy nhrefniadau monitro ansawdd.

**26** Yn ystod 2013-14, bwriadaf gadw ffioedd ar lefel 2012-13 lle bynnag y bo modd a byddaf yn parhau i geisio arbedion effeithlonrwydd o ran ein dull archwilio er mwyn cyflawni gostyngiad cyfartalog mewn termau real yn ein ffioedd archwilio. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad cyfartalog o 19.8 y cant mewn termau real mewn ffioedd archwilio ar gyfer pob corff a archwilir rhwng 2009-10 a 2013-14. Fodd bynnag, bydd y posibilrwydd o unrhyw ostyngiadau mewn ffioedd yn dibynnu ar amgylchiadau pob corff lleol. Rhaid i'r ffi fod yn ddigon i ariannu'r gwaith sydd ei angen er mwyn galluogi fy archwilwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol, gan ystyried amgylchiadau lleol megis yr amgylchedd llywodraethu, proffil risg, trefniadau ariannol a rheoli perfformiad, maint, cymhlethdod a hanes blaenorol y corff o wella. Os bydd angen gwneud gwaith nas cynlluniwyd neu waith ychwanegol o ganlyniad i fethiannau gan gyrff a archwilir o ran darparu'r hyn sydd ei angen ar fy staff i wneud eu gwaith yn effeithlon, byddaf yn codi ffioedd ychwanegol sy'n gymesur â'r gwaith ychwanegol dan sylw. Caiff fy ngraddfeydd ffioedd eu meincnodi yn erbyn y ffioedd a godir gan asiantaethau archwilio eraill y DU, ac mae canlyniadau'r ymarfer ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.[2]

**27** Yn ogystal ag arian gan Gynulliad Cymru ac incwm o ffioedd archwilio, rwyf hefyd yn cael grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi fy ngwaith mewn llywodraeth leol ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Rhwng 2009-10 a 2012-13 lleihaodd yr arian hwn 25.6 y cant mewn termau real i £1.347 miliwn. Rwyf wedi tybio, at ddibenion yr amcangyfrif hwn, y caiff y grant hwn ei rewi mewn termau arian parod ar £1.347 miliwn ar gyfer 2013-14 sy'n cyfateb i ostyngiad pellach o 2.5 y cant mewn termau real.

## Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd eraill


**28** Mae pob corff sector cyhoeddus, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, yn wynebu'r her o barhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl yn erbyn pwysau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen ar arian cyhoeddus.

**29** Yn gyffredin â llawer o gyrff cyhoeddus, maes gwariant mwyaf Swyddfa Archwilio Cymru yw cyflogau staff a chostau cysylltiedig. Dengys Arddangosyn 5 y gostyngiad yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y cyfnod o chwe blynedd rhwng 2006-07 a 2011-12 (22.9 y cant) fel y nodir yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon a archwiliwyd.

---

2 www.wao.gov.uk/cymraeg/aboutus/4240.asp

**Arddangosyn 5 - Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod o chwe blynedd rhwng 2006-07 a 2011-12**




30 Rwyf wedi gweithredu cynlluniau ymadael gwirfoddol yn ystod 2010-11 a 2011-12 er mwyn sicrhau dros amser gymysgedd o staff sy'n cyd-fynd yn agosach â gofynion gwaith yn y dyfodol (gan gynnwys recriwtio ar raddau is lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau cymysgedd mwy darbodus o staff) a lleihau costau staff Swyddfa Archwilio Cymru ymhellach. Gadawodd 14 o aelodau o staff o dan gynllun 2010-11. Dangosodd staff lai o ddiddordeb yng nghynllun 2011-12 nag yr oeddwn wedi gobeithio a chafodd chwe aelod o staff ganiatâd i adael. O'r rhain gadawodd un yn 2011-12 a gadawodd y pump arall yn 2012-13. Cost cynllun 2011-12 oedd £0.35 miliwn, a fydd yn arbed £82,000 y flwyddyn. Cymeradwywyd swm ychwanegol o £0.55 miliwn i helpu i ariannu cynllun 2011-12. Defnyddiais £0.1 miliwn o'r swm ychwanegol a gymeradwywyd a dychwelwyd yr elfen nas gwariwyd o'r swm ychwanegol a gymeradwywyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

31 Mae fy staff a minnau yn parhau i geisio arbedion effeithlonrwydd eraill a fydd yn ein helpu i leihau ein sylfaen costau ymhellach yn 2013-14 ac rwyf wedi gwneud gwahanol rannau o'r busnes yn gyfrifol am sicrhau arbedion effeithlonrwydd o tua 2.5 y cant er mwyn lleihau ein sylfaen costau ymhellach ar ôl 2012-13.

32 At hynny, rwyf bellach wedi rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer y fflyd cerbydau yn Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn helpu i wella diogelwch a lles staff, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a sicrhau arbedion cost. Mae'r trefniadau newydd hyn yn cynnwys proses caffael cystadleuol ar gyfer darparwr fflyd newydd, cyfyngu'r dewis o gerbydau i dri gweithgynhyrchwr (y mae'n rhaid i bob un ohonynt gyrraedd y safonau diogelwch uchaf a pheidio ag allyrru mwy na 140g/cm2), lleihau'r lwfans teithio a mesurau i leihau pob math o deithio gan staff yn fwy cyffredinol, er enghraifft drwy wneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau fideogynadledda. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi comisiynu adolygiad gwerth am arian o'r trefniadau newydd hyn.

## Costau ychwanegol yr eir iddynt

33 Er y byddwn yn parhau i adolygu ein gwariant a chyfyngu ar gyflogau yn unol â chanllawiau llywodraeth ganolog, rydym hefyd yn wynebu nifer o bwysau cynyddol o ran costau.

a Rwyf yn ceisio swm ychwanegol o £250,000 i ddatblygu'r gwaith rydym yn ei wneud ym maes arfer da. Fel archwilwyr yn y sector cyhoeddus, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran helpu cyrff cyhoeddus i nodi cyfleoedd i gyflawni arbedion. Yr adborth a gawsom gan ein rhanddeiliaid yw y gallem wneud hyn yn fwy effeithiol drwy fuddsoddi mwy mewn gweithgareddau megis ein Cyfnewidfa Arfer Da a thrwy lunio adnoddau ychwanegol gan gynnwys cyfres newydd o adroddiadau byrrach a mwy amserol a chymhorthion i'r sector cyhoeddus. Mae ein Canllaw ar Leihau Costau, sy'n rhoi canllawiau a chyfarwyddyd ynghylch rheoli lleihad mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn enghraifft o adnodd o'r fath.

b Drwy rannu arfer da, gall Cyrff yn y Sector Cyhoeddus nodi meysydd i'w gwella yn haws a sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl. Er enghraifft, nododd ein gwaith diweddar ar effeithlonrwydd ynni wrth reoli asedau astudiaeth achos lle roedd un awdurdod wedi rhoi meddalwedd ar waith a osododd fesurau arbed ynni ar 400 o gyfrifiaduron personol/cyfrifiaduron bwrdd gwaith o fewn y sefydliad. Costiodd y feddalwedd hon £39,000 i'w phrynu a sicrhaodd arbedion ynni gwerth tua £80,000 bob blwyddyn. Rhannwyd yr astudiaeth achos ymhlith y gweithgor Rheoli Asedau Cenedlaethol ac yn fyd-eang drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da. Rydym yn ymwybodol bod o leiaf ddau sefydliad arall wedi mabwysiadu'r dull hwn o weithredu wedi hynny, a arweiniodd at arbedion blynyddol o £160,000 y flwyddyn o leiaf. Mae defnydd helaeth eisoes yn cael ei wneud o gynnwys y Gyfnewidfa Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ystod y flwyddyn rhwng Hydref 2011 a Hydref 2012, edrychwyd ar y deunyddiau a oedd eisoes wedi'u cyhoeddi ar y wefan mwy na 140,000 o weithiau. Bydd buddsoddiad uwch yn fy ngalluogi i wneud llawer mwy o waith yn y maes hwn.

c Rwyf hefyd yn ceisio adnodd ychwanegol o £250,000 er mwyn sicrhau y gallaf gynnal fy rhaglen gwerth am arian a gynlluniwyd ymlaen llaw y bwriedir iddi sicrhau y rhoddir sylw cynhwysfawr i'r sector cyhoeddus yng Nghymru tra'n darparu ar gyfer ymateb cyflym i brosiectau y mae angen eu cyflawni ar frys heb orfod gohirio gwaith a gynlluniwyd. Rwy'n cael nifer gynyddol o geisiadau am ymchwiliadau arbennig, y mae rhai ohonynt yn dod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae enghreifftiau diweddar wedi cynnwys yr ymchwiliadau i Awema

a River Lodge. Heb yr arian ychwanegol hwn, mae'n anochel y perir oedi i'r gwaith o gyflawni fy Rhaglen o Astudiaethau Cenedlaethol. Rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno cyfres newydd o astudiaethau gwerth am arian byrrach a mwy amserol.

**ch** Gan edrych y tu hwnt i 2013-14, mae fy staff wrthi'n amcangyfrif faint o waith ychwanegol y gall fod angen i ni ei wneud o ganlyniad i'r dyletswyddau ychwanegol posibl sy'n debygol o ddeillio o ddeddfu'r Bil Datblygu Cynaliadwy. Mae'n anochel y bydd y fath ddyletswyddau yn arwain at gostau datblygu a hyfforddi ychwanegol. Rwy'n rhagweld ar hyn o bryd yr eid i'r costau ychwanegol hyn dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2014-15 a 2016-17 a byddai angen eu cynnwys fel ceisiadau am adnoddau ychwanegol yn yr amcangyfrifon ar gyfer y blynyddoedd hynny.

## Meysydd lle y ceir ansicrwydd

### Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

**34** Ysgrifennais at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 5 Medi 2012 gan nodi fy marn ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Yn y llythyr hwnnw, mynegais y farn bod cost y Bil fel y mae yn debygol o fod gryn dipyn yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd yn y Memorandwm Esboniadol. Yn fy llythyr canlynol dyddiedig 12 Hydref rwyf wedi rhoi dadansoddiad o'm hamcangyfrif o'r costau hyn. Fel a gytunwyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, byddaf yn chwilio am arian ar gyfer y costau mewn Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2013-14, unwaith y daw anghenion arfaethedig y Bil yn fwy amlwg.

### Treth Ar Werth

**35** Fel y nodwyd ym mhapurau amcangyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol a hefyd yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ers creu Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005, mae trafodaethau yn parhau gyda Chyllid a Thollau EM ynghylch fy safbwynt ar Dreth Ar Werth (TAW). Mae fy amcangyfrifon mewn blynyddoedd blaenorol wedi nodi y gallai'r rhwymedigaeth bosibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid yn fy statws TAW fod yn sylweddol ac y gallai ei gwneud yn ofynnol i mi wneud cais am adnoddau atodol yn y dyfodol.

**36** Yn ystod 2011-12 dyfarnodd Cyllid a Thollau EM ar fy statws TAW ond mae trafodaethau yn parhau ynghylch y modd yr ymdrinnir â TAW ar waith a gwblhawyd ar fy nghyfer. Yn dilyn y dyfarniad hwn, ac yn seiliedig ar gyngor arbenigol annibynnol, gwneuthum ddarpariaeth sylweddol yn fy nghyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 ar gyfer rhwymedigaethau hanesyddol posibl os bydd Cyllid a Thollau EM yn dyfarnu y dylid bod wedi trin y gwaith a gwblhawyd ar fy nghyfer yn wahanol at ddibenion TAW.

**37** Er i mi lwyddo i wneud darpariaeth gyfrifyddu ar gyfer y rhwymedigaethau hanesyddol hyn, os bydd y rhwymedigaethau hyn yn crisialu, efallai y bydd angen i mi geisio arian ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru fel y nodais yn fy llythyr i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dyddiedig 26 Medi 2012. Mae hefyd yn bosibl y bydd yn rhaid i mi newid y ffordd rwy'n codi TAW yn y dyfodol. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n debyg y byddai fy nghostau yn cynyddu tua £600,000 y flwyddyn, y byddai angen i mi ei gynnwys mewn amcangyfrif atodol ar gyfer y flwyddyn y rhoddwyd unrhyw newid ar waith gan Gyllid a Thollau EM.

## Treuliau teithio a chynhaliaeth cyflogeion

38 Nodais yn fy adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2011-12 ei bod yn bosibl bod y ffordd y mae angen i'm staff weithio wedi arwain at sefyllfa lle mae rhai wedi sefydlu lleoliadau gwaith parhaol yn swyddfeydd y cyrff a archwilir gennyf. Mae'n bosibl y dylid bod wedi talu treth ac yswiriant gwladol mewn perthynas â rhai taliadau ar gyfer treuliau yr aed iddynt wrth deithio i'r swyddfeydd hyn. Rwy'n ymwybodol bod cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ac asiantaeth archwilio arall yn y DU yn cael problemau tebyg. Rwyf wrthi'n cynnal trafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn datrys y mater hwn. Os bydd Cyllid a Thollau EM yn dyfarnu y dylwn fod wedi didynnu TWE wrth dalu'r treuliau hyn, efallai y bydd angen i mi geisio refeniw ac adnoddau arian parod ychwanegol drwy amcangyfrif atodol.

## Newidiadau deddfwriaethol: San Steffan

39 Yn fy amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012, pwysleisiais yr effaith y gallai diddymu'r Comisiwn Archwilio ei chael ar Swyddfa Archwilio Cymru. Mae effaith y newid hwn yn dod yn gliriach, ond mae problemau i'w datrys o hyd, megis trefniadau ar gyfer ymgymryd â'r Fenter Twyll Genedlaethol. Rwy'n adolygu'r sefyllfa hon yn barhaus er mwyn asesu unrhyw oblygiadau cost ac unrhyw oblygiadau gweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru.

# Atodiad 1 - Prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol, a ffynonellau ariannu cysylltiedig

| Gweithgaredd | Graddfa | Ffynhonnell y cyllid |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon a baratowyd gan lywodraeth ganolog a chyrff iechyd | Wyth set o gyfrifon a baratowyd gan Lywodraeth Cymru; 31 o gyfrifon eraill, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad; saith corff iechyd; a thair o Ymddiriedolaethau'r GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Archwilio cyfrifon a baratowyd gan gyrff llywodraeth leol | 22 o awdurdodau unedol, pedwar awdurdod heddlu, tri awdurdod tân ac achub, un o ymddiriedolaethau'r gwasanaeth prawf, tri awdurdod parc cenedlaethol, un bwrdd draenio mewnol, wyth cronfa bensiwn, tua 750 o gynghorau cymuned a chyrff bach eraill. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Asesiadau gwella llywodraeth leol | Mae'n cynnwys archwiliadau o ran pa un a yw awdurdodau wedi cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad, asesiadau i nodi pa mor debygol ydyw y cydymffurfir â dyletswyddau gwella ac arolygiadau arbennig. Fe'u cyflawnwyd mewn 22 o awdurdodau unedol, tri awdurdod tân ac achub a thri awdurdod parc cenedlaethol. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi arian grant i gefnogi gwaith asesu gwelliant. |
| Gwaith archwilio perfformiad lleol mewn cyrff iechyd | Mae'n cynnwys asesiadau o drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe'u cyflawnwyd mewn saith bwrdd iechyd a thair o ymddiriedolaethau'r GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 34 o gynlluniau llywodraeth leol (tua 800 o hawliadau sy'n werth cyfanswm o tua £1.6 biliwn), ochr yn ochr â hawliadau am gronfeydd strwythurol Ewropeaidd lle mae cyfanswm gwerth blynyddol yr hawliadau tua £300 miliwn. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian | Fel arfer, cynhelir 12 o archwiliadau, astudiaethau ac allbynnau eraill yn ystod blwyddyn galendr, gan edrych ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn aml yn cael ei wneud o safbwynt 'system gyfan' neu o safbwynt 'trawsbynciol', lle y caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. | Fe'u hariennir yn bennaf o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi arian grant i gefnogi astudiaethau llywodraeth leol. |
| Gweithgareddau pwysig eraill | Mae'n cynnwys:<br>• gwirio ceisiadau i gymeradwyo hawlio arian o Gronfa Gyfunol Cymru;<br>• gweithio gydag eraill i rannu dysgu, gan gynnwys darparu'r Gyfnewidfa Arfer Da;<br>• ymarferion gwrth-dwyll ac ymarferion paru data eraill, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol;<br>• ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill;<br>• rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol;<br>• gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | Fe'u hariennir yn bennaf o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff rhai gweithgareddau hefyd eu hariannu yn rhannol gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |

# Atodiad 2 - Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno Cynnig Cyllidebol blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru[3] er mwyn awdurdodi, ymhlith pethau eraill:

- **a** yr adnoddau y gall yr Archwilydd Cyffredinol eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol;
- **b** yr adnoddau sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol y gall eu cadw (yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru);
- **c** y swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r amcangyfrif a archwiliwyd ac a osodwyd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi'i ymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol.

Ceir isod grynodeb o'r gofynion adnoddau ac arian parod hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb llifau incwm.

## Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2013

| | |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru[4]. | £ miliwn |
| • Refeniw | 5.224 |
| • Cyfalaf | 0.020 |

| | |
|---|---|
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (ac eithrio ar gyfer gwaith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol); costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol; costau a adenillir oherwydd staff wedi'u secondio; benthyciadau staff a ad-delir; taliadau prydlesu ceir a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith at ddefnydd yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru[5]. | £ miliwn<br>7,944 |

| | |
|---|---|
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol[6]. | £ miliwn<br>5,224 |

3 O dan Adran 125 o Ddeddf 2006.

4 Dyma'r refeniw a'r gwariant cyfalaf net o ran adnoddau y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hawdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(a) o Ddeddf 2006.

5 Dyma'r incwm sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio'r incwm sy'n codi o weithgareddau llywodraeth leol o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009) y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei awdurdodi drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) o Ddeddf 2006 i'w ddefnyddio ar wasanaethau cysylltiedig yn hytrach na chael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

6 Dyma'r arian parod sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer taliadau net amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol (taliadau llai derbyniadau) sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn i'w awdurdodi gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy'r Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(c) o Ddeddf 2006.

# Cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 5,224 |
| Addasiadau | 0 |
| **GOFYNIAD ARIAN PAROD NET** | 5,224 |

# Atodiad 3 - Amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|
| Treuliau | Costau sy'n gysylltiedig â staff | 16,452 |
| | Costau llety | 907 |
| | Costau hyfforddi a datblygu[7] | 260 |
| | Costau TG | 726 |
| | Cyflenwadau a gwasanaethau | 4,648 |
| | **CYFANSWM Y TREULIAU** | **22,993** |
| Incwm | Ffioedd archwilio ac arolygu | 14,301 |
| | Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru | 1,347 |
| | Ffioedd ardystio grantiau llywodraeth leol | 1,774 |
| | Incwm arall | 347 |
| | **CYFANSWM Y FFIOEDD AC INCWM ARALL** | **17,769** |
| **CYFANSWM Y GOFYNIAD GWARIANT REFENIW NET** | | **5,224** |

7 Mae'n cynnwys amser staff a chostau uniongyrchol.

# Cysoni'r amcangyfrif o groniadau incwm â chyfanswm y ffioedd ac incwm arall

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|
| Incwm sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol heblaw am incwm sy'n deillio o weithgareddau llywodraeth leol | 7,944 |
| Incwm sy'n cronni i'r Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol | 9,825 |
| **CYFANSWM Y FFIOEDD AC INCWM ARALL** | **17,769** |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon